Eitem Agenda 6 **12 Chwefror 2010** **WNC 04.10**

ADRODDIAD AR GYNNYDD RHAGLEN FFERMYDD GWYNT COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU
[Rhaglen Gorfforaethol 3 Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Ynni Adnewyddadwy]

Pwrpas

1. Hysbysu'r Pwyllgor Cenedlaethol am gynnydd Rhaglen Ffermydd Gwynt Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Crynodeb

2. Mae portffolio prosiectau'r Rhaglen, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys naw prosiect, yn datblygu yn unol â'r graddfeydd amser a bennwyd:

- Chwe phrosiect Datblygu Ffermydd Gwynt yn seiliedig ar y Cytundebau Opsiynau;
- Prosiect Cwympo;
- Prosiect Proses Busnes a Hysbysrwydd;
- Prosiect Cynllunio Gweithlu.

Cefndir

3. Oddi ar 2006 mae ymagwedd lwyddiannus Comisiwn Coedwigaeth Cymru at y Rhaglen Ffermydd Gwynt wedi golygu cyfres o Brosiectau PRINCE2 strwythuredig :-

- P1 – Caffael a dyfarnu Cytundebau Opsiynau : wedi'i gwblhau yn llwyddiannus;
- P2 – Datblygu Adnoddau a Phrosesau er mwyn hwyluso P3;
- P3 – Cyflawni'r chwe Phrosiect sydd bellach yn rhan o'r Rhaglen Ffermydd Gwynt.

4. Cafodd y cymhlethdodau cynyddol o gyflawni chwe phrosiect eu sylweddoli'n gynnar gan Fwrdd Prosiectau P2, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Cymru, a gwnaed penderfyniad i newid yr ymagwedd o fod yn seiliedig ar brosiect i fod yn seiliedig ar raglen trwy gyfrwng y canllawiau sector cyhoeddus yn Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus y Swyddfa Llywodraeth a Masnach.

5. Cychwynnodd Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus trwy ddatblygu Datganiad Diffinio Rhaglen, a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym mis Rhagfyr 2009.

Gweledigaeth ac Amcanion Rhaglen

6. Wrth greu Datganiad Diffinio Rhaglen, roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n gallu ystyried y Rhaglen yn nhermau gweledigaeth ac amcanion mwy hirdymor a nodir yn Atodiad 1.

Adroddiad ar Gynnydd y Prosiectau Ffermydd Gwynt

7. Cafodd crynodeb byr am gynnydd pob Prosiect Fferm Wynt ei gynnwys yn Atodiad 2.

Risg

8. Mae technegau Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus yn mynnu bod Cofnodion Risg Rhaglen a Phrosiect yn cael eu cadw a'u rheoli trwy Fyrddau Prosiectau a Rhaglenni. Bydd unrhyw risgiau difrifol sy'n codi yn cael eu trosglwyddo i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer arweiniad gan Fwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r risg waethaf sy'n wynebu'r rhaglen ar hyn o bryd yn ymwneud â gallu Comisiwn Coedwigaeth Cymru i fodloni ei rwymedigaethau cytundebol wrth i ddeiliaid Opsiynau baratoi eu Ceisiadau Cynllunio ac yn ystod y cyfnod adeiladu ar ôl caniatâd cynllunio. Mae datrys y risg hon yn brif flaenoriaeth gennyf.

9. Risg arall yr wyf yn awyddus ei datrys yw'r cymhlethdod sy'n codi fel canlyniad i sefydlu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith sy'n cymryd lle'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar gyfer datblygiadau dros 50MW. Araf yw'r cynnydd o ran gallu deall yn iawn sut y bydd y prosesau cynllunio newydd yn gweithio, ond rydym newydd sefydlu digon o gysylltiadau ac mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu.

Goblygiadau Adnoddau

10. Yn ystod Cymalau Cynllunio, Adeiladu a Chomisiynu'r Rhaglen, gwelir cynnydd amlwg yn yr adnoddau sydd eu hangen. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cadw ei aldaliadau o'r Ffioedd Opsiynau. Mae papur manwl yn cael ei lunio er mwyn hysbysu Uned Fusnes yr Adran Materion Gwledig am yr effaith ar dderbyniadau amcangyfrifedig wedi'u proffilio dros gyfnod y prosiectau ffermydd gwynt arfaethedig.

Deleted:

Cyfathrebu

11. Mae cyfathrebu o bwys arbennig i'r Rhaglen oherwydd y farn amrywiol ynglŷn â datblygu Ffermydd Gwynt ac amrywiaeth y rhanddeiliaid sy'n teimlo effaith y Rhaglen.

12. Sefydlwyd Cynllun Cyfathrebu, sy'n cael ei fireinio a'i wella drwy'r amser gyda golwg ar yr amodau newidiol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen.

13. Er mwyn i'r Rhaglen hon redeg yn esmwyth, rhaid datblygu rhwydwaith gyfathrebu grymus oddi mewn i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, ar draws Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, ac yn enwedig rhaid rhannu profiadau dysgu gydag Uned Fusnes Forest Renewables, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (Adran Materion Gwledig, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai) a Chyrff Cyhoeddus cysylltiol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Amgylchedd Cymru) – ac mae hyn yn dal i ddatblygu'n dda.

Argymhelliad

14. Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol.

Derek J Stephen
Swyddog Gweithredol Rhaglenni
5 Chwefror 2010

Atodiad 1

Gweledigaeth ac Amcanion Rhaglen

- **Gweledigaeth**

Galluogi ffermydd gwynt i gael eu hadeiladu a'u gweithredu ar Ystad Goetir Llywodraeth y Cynulliad. Ein dull fydd gwneud yn siŵr taw'r effaith leiaf bosibl y bydd y datblygiadau ffermydd gwynt yn ei gael ar allu Comisiwn Coedwigaeth Cymru i reoli'r coedwigoedd yn unol â Strategaeth Goetir Llywodraeth y Cynulliad.

- **Amcanion**

1. Bod ceisiadau cynllunio gan ddatblygwyr yn dderbyniol i'r landlord ac yn gallu cynhyrchu 641 MW o drydan[1], yn amodol ar ystyriaethau cynllunio.
2. Bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Datblygwyr yn cydymffurfio â thelerau'r Cytundebau Cyfreithiol ac yn trafod y camau sydd eu hangen i wireddu'r Weledigaeth.
3. Bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol (e.e. rheoliadau'r Ddeddf Goedwigaeth ac Iechyd a Diogelwch) ac unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol fel rheolwr tir cyhoeddus mewn perthynas â Datblygu Ffermydd Gwynt.
4. Bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael yr incwm cytundebol gan y datblygwyr ac yn adennill yr holl gost o gyflawni'r Rhaglen cyn trosglwyddo'r incwm net i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bod costau Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi'u cyfiawnhau a bod y cyfrif amdanynt yn dryloyw.
5. Bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal cysylltiadau effeithiol â rhanddeiliaid fel eu bod yn gallu deall swyddogaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn perthynas â Datblygu Ffermydd Gwynt a sut gall rhanddeiliaid ddylanwadu'n gyfreithlon ar y broses ddatblygu

[1] pan fo'r holl eneraduron yn gweithio hyd eithaf eu gallu.

6. Bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal ei raglenni gweithredol ar lefel Cymru (yn amodol ar gymalau'r adeiladu) ac yn amharu cyn lleied â phosibl yn lleol.
7. Bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystyried gofynion Deiliaid Opsiynau ar gyfer adnoddau ffisegol ac yn sicrhau cytundeb a gwerth gorau pan fo hynny'n briodol.
8. Bod seilwaith adeiledig yn caniatáu i'r goedwig gael ei rheoli'n ddiogel ac effeithiol ar ôl y gwaith adeiladu a thrwy gydol oes y fferm wynt.
9. Bod lliniariad ac enillion Amgylcheddol a Chymdeithasol mewn perthynas ag Ystad Goetir Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu hystyried gyda golwg ar Strategaeth Coetiroedd i Gymru a pholisi cyhoeddus perthnasol arall. Mae'r lliniariad a'r enillion sy'n amod i ganiatâd cynllunio yn cael eu hariannu gan y Deiliad Opsiynau.
10. Bod llywodraethiant yn cael ei weithredu yn unol â TAN 8 a chytundebau cyfreithiol i alluogi Cronfeydd Cymuned i gael eu rhannu'n briodol. Bod proses ar waith i ddelio ag anghydfodau rhwng y gymuned a'r datblygwr.
11. Bod cyn lleied â phosibl o goetir yn cael ei ddileu fel canlyniad i ddatblygu fferm wynt ar Ystad Goetir y Cynulliad. Bod plannu gorfodol yn digwydd i gymryd lle'r arwynebedd a gollir yn unol â'r Strategaeth Goetir a bodd hynny'n cael ei drin fel un o gostau'r Rhaglen.

Ardal Chwilio Strategol (SSA)	% o'r tir a Reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru sydd mewn Ardal Chwilio Strategol	TAN8 Targedau Gallu Dangosol (MW)	Targed Gallu Gorau (MW)	Dyddiad Comisiynu Targed	Sefyllfa Bresennol
SSA A Coedwig Clocaenog Npower	39.3	140	92	Awst 2014	Ceisiadau cynllunio i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ym mis Ebrill: ymgynghoriad Comisiwn Cynllunio Seilwaith Mai / Mehefin : cyfarfod amgylcheddol gyda'r holl randdeiliaid 4.2.10 er mwyn trafod grugieir duon a chynefinoedd gwiwerod coch
SSA B Goledd Carno Scottish Power	8.6	290	69	2014	Disgwyl cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ym mis Hydref : cynnydd cyson
SSA D Nant-y-Moch Airtricity	32.2	140	96	Tachwedd 2016	Disgwyl cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ym mis Awst : materion mynediad Nant-yr-Arian – gwnaed astudiaeth ac ystyriwyd gyda Chyngor Sir Ceredigion 10.2.10
SSA E Pontardawe Nuon	33.0	100	24	Tachwedd 2012	Dim cynnydd ar hyn o bryd oherwydd canolbwyntio ar Ardal Chwilio Strategol F : ddim yn torri Cytundeb Opsiynau ac yn talu Ffioedd Opsiynau
SSA F Coed Morgannwg Nuon	66.0	290	237	2013 - 2014	Cais Cynllunio gerbron yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (cyn y Comisiwn Cynllunio Seilwaith) : Gwrthwynebiad Cynllunio Ffurfiol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
SSA G Coedwig Brechfa Npower	56.6	90	111	Rhagfyr 2014	Disgwyl ymgynghoriad y Comisiwn Cynllunio Seilwaith Mehefin / Gorffennaf: cymhlethdod am fod y prosiect wedi'i rannu i ddau safle ac un o'r rhain yn mynd trwy Gynllunio Awdurdod Lleol a'r llall trwy'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith